

Vaughan Gething AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: VG/0157/18

Dr Dai Lloyd AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

28 Mawrth 2018

Annwyl Dai,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am graffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 y broses deddfwriaethol. Yn Atodiad A y llythyr hwn, rwyf wedi cyflwyno fy ymateb i'r pedwar ar ddeg o argymhellion a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil. Mae'r ymateb hwn yn adlewyrchu fy marn bresennol.

Byddaf yn ysgrifennu hefyd at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'u hadroddiadau Cyfnod 1 a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yr eiddoch yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Atodiad A: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ynglŷn â'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).**

Ar 5 Mawrth 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon eu hadroddiad ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Mae'r adroddiad hwn yn darparu ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r argymhellion yn eu hadroddiad.

Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil ar 13 Mawrth.

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Yn gyntaf ac yn bennaf, mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â diogelu iechyd pobl yng Nghymru. Disgwylir y bydd cyflwyno isafbris am alcohol yn lleihau arferion yfed peryglus a niweidiol a fydd, yn y pen draw, yn helpu i achub bywydau.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r amcangyfrifon o gostau a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y gweithgaredd cyfathrebu arfaethedig gyda'r nod o gynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau ymysg busnesau ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn i adolygu'r costau ar gyfer gweithgaredd cyfathrebu arfaethedig. Fodd bynnag, ystyrir bod yr amcangyfrifon sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn briodol – am eu bod yn seiliedig ar brofiad o weithredu mesurau tebyg, blaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r costau ar gyfer y gweithgaredd cyfathrebu hwn oddeutu £100,000. Byddai hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â rhoi cyhoeddusrwydd i'r newid ymysg busnesau, er enghraifft drwy bost uniongyrchol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau masnach, am gost amcangyfrifedig o £80,000.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyhoedduswydd i'r newid ymysg y cyhoedd – er enghraifft drwy ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus, digwyddiad lansio, ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol, am gost amcangyfrifedig o £20,000. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn datblygu deunyddiau cyhoedduswydd cenedlaethol y gellir eu rhannu a'u defnyddio gan amrediad o randdeiliaid gwahanol. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllaw i fanwerthwyr ac Awdurdodau Lleol. Bydd datblygu'r canllaw yn rhan o'r gwaith gweithredol a wneir yn y cyfnod cyn cyflwyno'r Bil. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllaw yn adnodd ymarferol a defnyddiol i helpu manwerthwyr a'r rhai sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth.

### **Goblygiadau ariannol**

Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £100,000 ar gael ar gyfer gweithgaredd cyfathrebu, sy'n swm priodol yn ein barn ni ar hyn o bryd. Mae'r gwariant hwn yn cael ei reoli o fewn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3:** Dylai rheoliadau sy'n ymwneud â phennu'r isafbris uned fod yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

O ystyried ei effaith ar randdeiliaid a'r cyhoedd ehangach, rydym o'r farn ei bod yn briodol na ddylid nodi na diwygio'r isafbris uned heb ystyriaeth lawn a'r cyfle i'w drafod yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y weithdrefn gadarnhaol yn darparu'r cyfle hwnnw a'i fod yn briodol.

Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pasio'r ddeddfwriaeth, cynhelir ymgynghoriad ar yr Isafbris Uned y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflwyno.

Cyhoeddir Asesiad Effaith Rheoleiddiol ochr yn ochr â'r rheoliadau a fydd yn nodi'r Isafbris Uned at ddibenion y Bil. Bydd yr AERh yn cynnwys asesiad ariannol trylwyr o effeithiau'r lefel Isafbris Uned a gynigir, yn seiliedig ar ddadansoddiad diweddar a gynhaliwyd gan Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield ac unrhyw ffactorau eraill perthnasol.

Yn ogystal, mae rhagofalon eraill wedi'u hymgorffori yn y gyfundrefn isafbris yma yng Nghymru.

Mae cyflwyno isafbris eisoes wedi bod yn destun dau ymgynghoriad yma yng Nghymru. I ddechrau, fel rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd yn 2014 ac yna, ac

yn fwy penodol, cafwyd cyfnod ymgynghori estynedig ar y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn 2015.

Yn ogystal, mae'r Bil yn ymrwmo Gweinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y gyfundrefn isafbris ar ôl pum mlynedd ac mae'n darparu i'r ddeddfwriaeth gael ei diddymu ar ôl cyfnod o chwe blynedd oni fydd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, yn penderfynu parhau â hi.

**Argymhelliad 4:** Cyn i'r Bil gyrraedd trafodion Cyfnod 3 yn y Cynulliad Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad o fwriad sy'n cadarnhau yr isafbris uned y mae'n ei ffafrio, a'r rhesymau am hynny.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyhoeddi datganiad, ar ôl i Weinidogion Cymru ystyried cyngor gan swyddogion ar y lefel arfaethedig o isafbris i'w nodi yn y rheoliadau. Fodd bynnag, ni allaf ymrwmo i gyhoeddi unrhyw ddatganiad cyn i'r Bil gyrraedd Cyfnod 3.

Cyhoeddodd Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield eu *Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru* ar 22 Chwefror. Ni fydd unrhyw gyhoeddiad yn cael ei wneud ar lefel yr Isafbris Uned y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ymgynghori arno nes bod canfyddiadau adroddiad Prifysgol Sheffield wedi'u hystyried yn llawn.

Bydd cynigion ynglŷn â phennu lefel yr Isafbris Uned yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth a thrwy ystyried ffactorau perthnasol eraill. Bydd y ffactorau hyn yn cynnwys data ar werthiannau alcohol a data am niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn edrych ar ganlyniadau disgwylidig gwahanol lefelau o isafbris uned ac yn gwneud penderfyniad sy'n sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng y manteision pwysig a amcangyfrifir i iechyd y cyhoedd ac ymyrraeth yn y farchnad.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'n ffurfiol yr isafbris uned ar gyfer alcohol bob dwy flynedd. Dylid cyhoeddi proses a chanlyniad pob adolygiad. Dylai pob adolygiad o'r isafbris uned roi ystyriaeth lawn i fynegeion chwyddiant.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i adolygu lefel yr isafbris uned, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei bennu ar y lefel briodol, gan ystyried nodau'r Bil ac ymyrraeth yn y farchnad.

Bwriedir cynnal adolygiad mewnol o lefel yr isafbris uned ar ôl dwy flynedd ac mae'r Bil eisoes yn ymrwmo Gweinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth, ar ôl cyfnod o bum mlynedd. Bydd yr adolygiad ffurfiol o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth yn cael ei lywio gan raglen monitro a gwerthuso barhaus.

Rydym yn gwbl ymrwymedig i adolygu'r polisi newydd ac arloesol hwn ac mae hyn wedi'i adlewyrchu ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi mai ffurfioli amserlen adolygu unwaith bob dwy flynedd fyddai'r dull gorau o fynd ati.

### **Goblygiadau ariannol**

Bydd y goblygiadau ariannol yn sgil cynnal yr adolygiad mewnol ar ôl dwy flynedd yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i bob cyfle i weithio gyda'r diwydiant alcohol a Llywodraeth y DU er mwyn annog cynhyrchwyr a manwerthwyr alcohol i gynhyrchu a darparu cyfran uwch o gynhyrchion alcohol cryfder is.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r cynhyrchwyr a'r manwerthwyr eu hunain sy'n gyfrifol am benderfyniadau masnachol ynglŷn â chynhyrchu a darparu eu cynhyrchion alcohol, o fewn y fframweithiau cyfreithiol perthnasol.

Fodd bynnag, mae Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru wedi'i hategu gan ffocws ar leihau arferion yfed peryglus a niweidiol ac annog arferion yfed mwy cyfrifol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r diwydiant alcohol, pan fydd hynny'n briodol, drwy Rwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru a hefyd gyda Llywodraeth y DU ar faterion i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad Cenedlaethol ac os daw'r Bil yn ddeddf. Fel y cydnabyddir yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, mae ansicrwydd cydnabyddedig ynglŷn ag union ymateb y diwydiant alcohol i gyflwyno isafbris uned, er bod ail-fformiwleiddio a datblygu a gwerthu alcohol cryfder is yn sicr yn bosibilrwydd.

## **Goblygiadau Ariannol**

Bydd y goblygiadau ariannol yn sgil derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon a'r adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad cadarn o'r angen presennol am wasanaethau triniaeth a chymorth yng Nghymru i sicrhau bod darpariaeth ddigonol, sydd wedi'i diogelu ar gyfer y dyfodol, ar gael. Dylai'r asesiad ddigwydd cyn i'r ddeddfwriaeth hon ddechrau.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae ystyriaeth eisoes yn cael ei rhoi i effeithiau posibl yr isafbris uned ar wasanaethau triniaeth a chymorth ar gyfer alcohol yng Nghymru. Mae Byrddau Cynllunio Ardal eisoes yn cynnal asesiad o'r angen a gwasanaethau lleol fel rhan o'u strategaethau comisiynu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a roddir i'r byrddau iechyd lleol gan ddyrannu bron i £1 filiwn yn ychwanegol iddynt (o 2018/19 ymlaen). Rhoddir ystyriaeth i gynyddu'r cyllid Camddefnyddio Sylweddau, yng nghyd-destun blaenoriaethau eraill ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2019-20 ymlaen.

## **Goblygiadau ariannol**

Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a roddir i fyrddau iechyd lleol gan ddyrannu bron i £1 filiwn yn ychwanegol iddynt. Bydd y costau hyn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fonitro effeithiau isafbris uned ar wasanaethau triniaeth a chymorth ar gyfer alcohol yn yr Alban er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn sail i'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau perthnasol yng Nghymru.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rwy'n fodlon derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Wrth gwrs, bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddysgu unrhyw wersi perthnasol yn sgil cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar isafbris uned yn yr Alban ac effeithiau isafbris uned ar wasanaethau triniaeth a chymorth ar gyfer alcohol yn yr Alban. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban ac maent eisoes yn dysgu o'u profiadau hyd yma.

Pe byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn pasio'r ddeddfwriaeth, mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn pwysleisio y bydd cyfnod o amser cyn i'r gyfundrefn isafbris ddod i rym a fydd yn galluogi'r rhai a gaiff eu heffeithio ganddi i baratoi ar gyfer hyn. Erbyn hynny, bydd profiad yr Alban yn darparu gwersi cynnar ynglŷn â gweithredu'r gyfundrefn.

#### **Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig ag egwyddor yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil annibynnol i ddarganfod faint o broblem yw defnyddio sylweddau eraill yn lle alcohol yn debygol o fod pe bai isafbris uned yn cael ei gyflwyno.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risg y bydd pobl yn newid i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon neu sylweddau seicoweithredol eraill yn lle alcohol yn isel. Er hynny, mae'n risg bwysig i'w hystyried a'i deall. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o gomisiynu ymchwil ar y mater hwn.

Yn y cyfamser, gofynnwyd i Banel Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau edrych ar dystiolaeth gyfredol ar y mater hwn. Mae'r Panel hwn wedi datgan yn y gorffennol: "Some consumers may substitute other psycho-active products for alcohol...Evidence of the extent of such behaviour is scarce, although it suggests

only a very small proportion of problematic drinkers, who already have other substance misuse issues, would respond in this Way.”<sup>1</sup>

### **Goblygiadau Ariannol**

Bydd y goblygiadau ariannol yn sgil derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd i gefnogi gwaith Panel Cyngori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau ynghylch y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10:** I gyd-fynd â'r system isafbris uned, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno ardoll orfodol, neu gynllun talu gwirfoddol, i fanwerthwyr. Dylid defnyddio'r arian a godir gan yr ardoll yn gyfan gwbl at ddibenion mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyfrannu at y nod ehangach o wella a diogelu iechyd poblogaeth Cymru.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno i ystyried y mater hwn, dim ond ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth y gellir rhoi ystyried ddyledus i'r mater. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn newydd ac arloesol. O ganlyniad, mae ansicrwydd cydnabyddedig yn arbennig ynglŷn ag unrhyw gynnydd mewn refeniw i fanwerthwyr a lle y gallai'r rhain ddigwydd yn y gadwyn gyflenwi.

Mae ansicrwydd o'r fath hefyd yn golygu ei bod yn anodd gweld sut y gellir asesu ffiniau cymhwysedd y Cynulliad yn y maes hwn ar hyn o bryd. Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â'r diwydiant ynglŷn â'r posibilrwydd o weithredu gwirfoddol, ond ni fyddwn yn ceisio deddfu ar hyn.

### **Goblygiadau Ariannol**

Bydd y goblygiadau ariannol yn sgil derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

---

<sup>1</sup> Cyngor Cyngori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (2014) Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context.



**Argymhelliad 11:** Dylai gofyniad i Weinidogion Cymru gynhyrchu canllawiau i fanwerthwyr ac awdurdodau lleol, sy'n nodi rhwymedigaethau'r ddeddfwriaeth, gael ei gynnwys ar wyneb y Bil.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar y Bil er mwyn cynorthwyo a hybu dealltwriaeth o'r drefn newydd arfaethedig. Nid oes pŵer ar wyneb y Bil ynglŷn â'r canllawiau hyn, a hynny am fod gan Lywodraeth Cymru bwerau'n barod i'w cyhoeddi. Bydd y gwaith o ddatblygu'r canllawiau hyn yn ffurfio rhan o'r gwaith gweithredol a wneir yn ystod y cyfnod cyn gweithredu'r Bil.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau bod y canllawiau yn adnodd ymarferol a defnyddiol i helpu manwerthwyr a'r rhai sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chonsortium Manwerthwyr Cymru, Rhwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu ymgysylltu â'r Trydydd Sector i ddatblygu canllawiau a dulliau cyfathrebu cysylltiedig, drwy weithio gyda'r Rhwydwaith Camddefnyddio Sylweddau. Mae aelodau'r rhwydwaith hwn yn cynnwys Alcohol Concern Cymru yn ogystal â darparwyr gwasanaethau megis CAIS a Kaleidoscope.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r amcangyfrifon cost a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer gweithgarwch arolygu ychwanegol yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r ddeddf a sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gyflwyno rhaglen well o addysg a hyfforddiant uwch i fanwerthwyr a swyddogion gorfodi yn ystod y cyfnod hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Cafodd amcangyfrif cychwynnol o £300,000 ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol i gyllido gweithgareddau gorfodi ac archwilio dros gyfnod o dair blynedd, a chytunwyd ar hwn bellach. Croesawyd hyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sefydliadau yn barhaus a byddant yn parhau i adolygu'r costau hyn – er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar gyfer y gweithgareddau archwilio a gorfodi cychwynnol sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Bil, yn ogystal ag addysg a hyfforddiant.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng swyddogion a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru ar y proffil gwariant mwyaf priodol o fewn y dyraniad tair blynedd o £300,000.

Mae Penaethiaid Safonau Masnach Cymru wedi cynnig y dylai'r cyllid hwn gael ei ddyrannu fel a ganlyn: £200,800 ym Mlwyddyn 1; £49,600 ym Mlwyddyn 2; a £49,600 ym Mlwyddyn 3. Mae yna 3,275 o safleoedd sy'n gwerthu alcohol ar hyd a lled Cymru a byddai darparu'r mwyafrif o'r cyllid ym mlwyddyn un yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal ymweliad arolygu ym mhob un o'r safleoedd hyn yn ystod y tri mis cyntaf yn dilyn y dyddiad arfaethedig presennol ar gyfer cyflwyno'r isafbris uned am alcohol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys amcangyfrifon o £6,000 ar gyfer costau hyfforddi swyddogion gorfodi. Rhoddir ystyriaeth i argymhelliad y Pwyllgor ar gefnogi rhaglen addysg a hyfforddiant uwch ar gyfer manwerthwyr a swyddogion gorfodi.

### **Goblygiadau Ariannol**

Bydd y goblygiadau ariannol yn sgil derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn ystod y cyfnod cynllunio cyllidebol presennol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio cyllidebol presennol yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 13:** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth fwy manwl ynghylch y gwerthusiad sy'n ofynnol o dan adran 21 o'r Bil.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac yn briodol nodi union gwmpas yr adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil a'r cynlluniau cysylltiedig ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi amlinelliad cyffredinol o'r cynlluniau ar gyfer gwerthuso ac adolygu ffurfiol. Bydd angen i'r gwerthusiad ganolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at gyflawni newid ar draws amrediad o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys lefelau defnyddio alcohol, derbyniadau mewn ysbytai a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio hefyd ar sut y gweithredwyd y ddeddfwriaeth yng Nghymru a rôl partneriaid allweddol yn y gwaith o gyflawni ei amcanion, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau eraill.

Fodd bynnag, byddaf yn rhannu cynlluniau ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth wrth iddynt gael eu datblygu, gydag aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Wrth gwrs, bydd angen i baramedrau a manylion y gwerthusiad gael eu hadolygu a'u cymeradwyo cyn cynnal gwerthusiad a fydd yn cyflwyno'i adroddiad ymhen mwy na phum mlynedd. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol defnyddio dull mor rhagnodol ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 14:** Rhaid i'r adroddiad gwerthuso sy'n ofynnol o dan adran 21 o'r Bil, gyfeirio at effeithiau isafbris drwy gyfeirio at grwpiau oedran, rhyw a statws economaidd-gymdeithasol; yfwyr cymedrol; yfwyr dibynnol; y defnydd o gyffuriau eraill yn lle alcohol; trais yn y cartref; profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; masnach drawsffiniol a masnach anghyfreithlon. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, dylid cynnwys y manylion hyn ar wyneb y Bil.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylai'r adroddiad gwerthuso ganolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at gyflawni newid ar draws amrediad o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys y lefelau o ddefnydd alcohol, derbyniadau mewn ysbytai a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd angen ystyried hefyd effeithiau'r isafbris uned ar grwpiau penodol.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen nodi amrediad yr adroddiad sy'n ofynnol o dan adran 21. Fel yr wyf wedi esbonio yn fy ymateb i argymhelliad 13, byddaf yn rhannu'r cynlluniau ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth wrth iddynt gael eu datblygu, gydag aelodau'r Pwyllgor Addysg, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.